# Neges gan y Cadeirydd

Diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yw'r ffynhonnell unigol fwyaf o arian cymunedol yn y DU. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gallu dosbarthu dros £686 miliwn mewn ariannu i 13,000 o brosiectau cymunedol.

Mae ein strategaeth newydd, **Cymuned yw'r man cychwyn**, yn adlewyrchu'r syniadau a'r gobeithion a glywsom gan gymunedau ledled y DU. Bydd hyn yn arwain ein dyfarniad grantiau hyd at 2030, ac yn ein galluogi i gael hyd yn oed mwy o effaith yn y blynyddoedd i ddod. Mae ein cynllun corfforaethol ar gyfer y tair blynedd nesaf yn gosod targedau ymestynnol sy'n tanlinellu ein hymrwymiad i fod yn ariannwr cymunedol teg ac amgylcheddol adfywiol.

Er gwaethaf yr heriau a'r ansicrwydd parhaus a gyflwynir gan bwysau costau byw ac effaith hirdymor COVID-19, mae mudiadau cymunedol a llawr gwlad wedi parhau i ddangos dyfeisgarwch a phenderfyniad i gryfhau cymdeithas sifil a gwella bywydau ledled y DU. Mae bwrdd a chydweithwyr Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol mewn sefyllfa freintiedig i gefnogi'r mudiadau hyn sy'n cadarnhau bywyd ac rydym yn cyflawni ein rôl gyda gostyngeiddrwydd a pharch.

Hoffwn gydnabod cyfraniad fy nghyd-aelodau ar y Bwrdd, aelodau ein pwyllgorau gwlad yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, a'r rhai sy'n gwasanaethu ar is-bwyllgorau'r Bwrdd. Yn yr un modd, hoffwn dalu teyrnged i'm cydweithwyr sydd, o dan arweiniad ein Prif Swyddog Gweithredol, David Knott, yn cyflawni eu rolau gydag angerdd ac ymrwymiad. Mae ein stiwardiaeth o'r ariannu sylweddol hwn, sydd wedi'i dargedu'n bwrpasol, yn parhau i gael effaith drawsnewidiol o fewn cymunedau lleol nawr ac yn y blynyddoedd i ddod.

**Paul Sweeney**
**Cadeirydd**



Learmount Community Development Group Ltd, Gogledd Iwerddon



Ministry of Life Education CIC, Cymru


Men Matter Yr Alban

# Neges gan y Prif Weithredwr

Rwy'n llawn balchder pan fyddaf yn myfyrio ar y gwahaniaeth cadarnhaol y mae prosiectau cymunedol ledled y DU wedi'i wneud i fywydau pobl bob dydd drwy arian y Loteri Genedlaethol. Eleni, lansiwyd ein strategaeth newydd uchelgeisiol, **Cymuned yw'r man cychwyn**, a'r cynllun corfforaethol cysylltiedig â gweledigaeth glir ar gyfer pennod newydd yn ein hariannu hyd at 2030.

Wrth inni edrych ymlaen at y flwyddyn, byddwn yn mynd ymhellach ac yn gyflymach yn ein huchelgeisiau i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb drwy fabwysiadu dull ariannu sy'n seiliedig ar degwch. Dyna pam rydym yn addo ymestyn ariannu ar lawr gwlad, gyda tharged o gyrraedd mwy nag 80% o gymunedau ledled y DU i wneud cais am ariannu a dros 50% o grantiau yn mynd i gymunedau sy'n profi'r tlodi a'r anfantais fwyaf.

Rydym yn derbyn syniad bob tri munud, felly byddwn yn cefnogi'r hyn sydd bwysicaf i gymunedau drwy dargedu darpariaeth ar draws ein pedair cenhadaeth a arweinir gan y gymuned a chanolbwyntio ar ble mae'r angen mwyaf. Byddwn yn sefydlu cefnogaeth ar gyfer gweithredu amgylcheddol ar draws yr holl ariannu, gan neilltuo 15% o'r arian ar gyfer cynaliadwyedd amgylcheddol a chefnogi prosiectau i ystyried yr amgylchedd hyd yn oed pan nad dyna yw eu prif ffocws.

Ni yw'r ffynhonnell unigol fwyaf o ariannu ar gyfer gweithgareddau cymunedol yn y DU ac rydym wedi bod ar y rheng flaen yn cefnogi cymunedau ers bron i 30 mlynedd. Mae ein strategaeth newydd yn harneisio'r profiad a'r angerdd hwn ac yn adlewyrchu mwy na 18,000 o syniadau a dyheadau gan bobl, elusennau a chymunedau. Wrth wneud hynny rydym yn barod i arloesi ac i fynd i'r afael â'r hyn sydd bwysicaf i gymunedau, nawr a thuag at 2030.


Family Volunteering Club, Lloegr

Ym mis Tachwedd, gwnaethom y newid mwyaf yn hanes ariannu'r Loteri Genedlaethol drwy ddyblu'r ariannu sydd ar gael trwy Arian i Bawb i £20,000 ac ymestyn hyd yr ariannu i ddwy flynedd, gan ein galluogi i gyrraedd cymunedau nad oeddem yn gallu o'r blaen, a rhoi cyfle i'r grwpiau yr ydym yn eu hariannu i gynllunio'n fwy effeithiol.

Rhwng 2023-24, roedd 84% o'n grantiau o dan £10,000, gyda'r mwyafrif yn cefnogi mudiadau ar lawr gwlad, ac o fewn chwe mis cyntaf y newid hwn, roedd 78% o'n ceisiadau am dros £10,000. Mae'r hwb hwn yn galluogi grwpiau bach, llawer ohonynt nad oes ganddynt yr un seilwaith a chydnerthedd â mudiadau mwy, i wneud hyd yn oed mwy dros eu cymunedau.

Bu'n flwyddyn gref ar gyfer dyfarnu grantiau cyffredinol, gyda dyfarniadau o fwy na £900 miliwn – gan gynnwys £686.3 miliwn o incwm y Loteri Genedlaethol, £127 miliwn drwy ddosbarthu Asedau Segur a'r gweddill drwy ein rhaglenni Million Hours a Cost of Living a ddarperir ar ran y Llywodraeth. Ar yr un pryd, mae pwysau costau byw wedi parhau i effeithio ar fywydau. Mae ein gwaith i gyflawni Cronfa Community Organisations Cost of Living ar ran yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) wedi tanlinellu ein cefnogaeth i gymunedau, gan weithio'n gyflym i helpu i ysgwyddo'r heriau y mae mudiadau ac elusennau ar lawr gwlad yn eu hwynebu. Yn ystod y flwyddyn, dosbarthwyd £71 miliwn i dros 1,500 o brosiectau.

Wrth i'r flwyddyn ddirwyn i ben, roeddwn yn falch o fod yn rhan o'r Black Health Inequalities Summit yn Llundain mewn partneriaeth â'r Caribbean and African Health Network ac Impact on Urban Health. Wedi'n symbylu gan y trafodaethau hyn, rydym wedi ymrwymo i herio materion sydd wedi gwreiddio'n ddwfn ar draws ein holl waith.

Rwy'n croesawu'r holl waith datblygu yr ydym yn ei wneud yn fewnol i ddod â'n strategaeth newydd yn fyw, a hoffwn hefyd gydnabod a chroesawu ein gweithredwr Loteri Genedlaethol newydd, Allwyn, a diolch yn ddiffuant i Camelot am eu cyfraniadau ers 1994. Ers hynny, mae chwaraewyr y Loteri Genedlaethol wedi codi £50 biliwn at achosion da ledled y DU, gan drawsnewid bywydau a chyfrannu at y celfyddydau, chwaraeon, treftadaeth a chymunedau. Ym mis Tachwedd eleni, byddwn yn gweithio ar draws y Loteri Genedlaethol i ddathlu hyn.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi helpu i lunio a dechrau cyflwyno **Cymuned yw'r man cychwyn**. Ni fyddai'r effaith ddofn a gawn ar rymuso cymunedau yn bosibl heb ymdrechion fy nghydweithwyr gweithgar, sy'n parhau'n ddiysgog yn eu rôl i helpu'r Gronfa i fod y gorau y gall fod wrth wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl.

**David Knott**
**Prif Weithredwr**



# Strwythur y mudiad

Tua diwedd y flwyddyn ariannol, gwnaeth y Prif Weithredwr newidiadau i Uwch Dîm Rheoli'r Gronfa a strwythurau'r gyfarwyddiaeth i roi mwy o ffocws ar ymagwedd y Gronfa o ymdrin â materion pobl a diwylliant, a fydd yn agwedd allweddol ar gyflawni ein strategaeth a'n cynllun corfforaethol yn llwyddiannus. Adlewyrchir y strwythur diwygiedig yma.

- **Swyddfa'r Prif Weithredwr**
  - **Gogledd Iwerddon**
  - **Yr Alban**
  - **Cymru**
  - **Lloegr**
  - **Ariannu, Strategaeth, Cyfathrebu ac Effaith**
  - **Cyllid ac Adnoddau**
  - **Pobl a Diwylliant**




CIC Ministry of Life, Cymru

Fe wnaethom gomisiynu'r gwaith gyda Useful Projects i roi gwaelodlin realistig i ni ar gyfer ein targedau sero net, archwilio'r holl gamau posibl i leihau allyriadau carbon, llywio ein llwybr sero net a'n targedau. Mae Useful Projects wedi cynnig targedau tymor-agos a thymor hwy seiliedig ar wyddoniaeth gyda chamau gweithredu i gyd-fynd â nhw.

**Mae'r gwaith cynhwysfawr hwn yn golygu bod ein cyfansymiau ar gyfer 2022-23 wedi'u hailddatgan yn yr adroddiad hwn i gynrychioli'r darlun mwyaf cywir sydd gennym o'n hallyriadau.**

## Dadansoddiad cyfanswm ôl troed carbon blwyddyn sylfaen y Gronfa

**Ffigur 2: Cyfanswm yr ôl troed amcangyfrifedig, gan gynnwys swyddfeydd, gweithrediadau a gweithgareddau Uned Hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol (NLPU) yn ôl categori cwmpas**




Amcangyfrifir mai categorïau cwmpas y Gronfa sydd â'r allyriadau carbon uchaf yw nwyddau a gwasanaethau a brynwyd (59%), defnydd o ynni wrth weithio gartref (17%) a theithio busnes (9%). Bydd y 'mannau carbon poeth' hyn yn feysydd ffocws allweddol ar gyfer cynllun datgarboneiddio'r Gronfa. Mae'n gyffredin iawn i gategori allyriadau uchaf mudiad gwasanaeth proffesiynol fod yn nwyddau a gwasanaethau a brynwyd. Mae ffynonellau gweithio gartref yn uchel ar gyfer y Gronfa gan fod y rhan fwyaf o gyfanswm yr oriau gwaith yn cael eu cwblhau gartref.


Mae gweithio tuag at sero net yn un rhan o'n Cynllun Amgylcheddol newydd 2023-2030. Mae gan y cynllun bedwar prif nod, gydag arferion mewnol yn eistedd o dan nod rhif tri:

1. Bod yn ariannwr amgylcheddol o'r radd flaenaf: gan gefnogi prosiectau effeithiol sy'n diogelu ac yn gwella'r amgylchedd mewn ffyrdd sy'n bwysig i gymunedau lleol.
2. Gwella effaith amgylcheddol y sector gwirfoddol a chymunedol: byddwn yn gwneud hyn trwy arwain y ffordd yn ein harferion ariannu, cefnogi ac ysbrydoli ein hymgeiswyr a'n deiliaid grant i weithredu i amddiffyn a gwella'r amgylchedd, a defnyddio ein safle fel ariannwr cymunedol mwyaf y DU trwy ddechrau cynnwys gofynion amgylcheddol yn ein holl ariannu.
3. Arwain y ffordd wrth reoli ein heffaith amgylcheddol: gwneud yr hyn yr ydym yn ei ddweud, a gweithio tuag at sero net, rhannu ein harferion ar hyd y ffordd i ysbrydoli eraill.
4. Dangos dylanwad ac arweinyddiaeth: dod â rhanddeiliaid at ei gilydd, gan arddangos y rôl y mae cymunedau yn ei chwarae wrth wella ein hamgylchedd.

## Arolwg amgylcheddol

Ym mis Gorffennaf 2023, fe wnaethom gyd-ddatblygu ein harolwg amgylcheddol cyntaf ar draws y mudiad gyda Useful Projects (UP) a'n Rhwydwaith Gweithredu Hinsawdd. Casglodd ddata meintiol a data ansoddol ynghylch arferion cymudo, gan gynnwys cwestiynau ynghylch faint o ymgysylltiad mae cydweithwyr yn teimlo gyda gweithredu amgylcheddol a sut maent yn teimlo ein bod yn gwneud fel mudiad, gyda 48% o gydweithwyr yn cwblhau'r arolwg. Mae hyn yn dangos ymwybyddiaeth o'n gweithgaredd ond yn awgrymu bod angen cyfathrebu mewnol ac addysg barhaus (gweler Ffigur 3).

**Ffigur 3: 'Faint o gynnydd, os o gwbl, ydych chi'n meddwl y mae'r Gronfa wedi'i wneud tuag at leihau effaith ei gweithrediadau?' (Ffynhonnell: Arolwg staff, Gorffennaf 2023)**



## Edrych i'r dyfodol

Rydym wedi comisiynu darn cychwynnol o waith i'n helpu i ddeall effeithiau amgylcheddol ein dyfarnu grantiau. Mae hyn yn heriol, o ystyried yr amrywiaeth o brosiectau a gweithgareddau cymunedol yn ein portffolio ariannu, ac mae'n debygol y bydd angen sawl cam.

Mae ein Grŵp Cyflawni Cynllun Amgylcheddol (EPDG), a fynychir gan uwch aelodau o gyfarwyddiaethau'r Gronfa, yn parhau i adolygu camau gweithredu a chynnydd amgylcheddol bob chwarter. Yn 2023-24, roedd trafodaethau'n seiliedig ar 131 o gamau gweithredu, ar draws lleihau ein heffaith amgylcheddol, helpu'r mudiadau rydym yn gweithio gyda nhw i leihau eu heffaith nhw, ac ymrwymo i'n strategaeth ariannu amgylcheddol.

Rydym yn parhau i ddatblygu ein hadroddiadau carbon mewnol, yn seiliedig ar ganllawiau data UP, gan gyfrifo ein hallyriadau Cwmpas 1, 2 a 3 llawn eleni. Byddwn yn parhau i rannu data i helpu i osod adroddiadau ar lefel cyfarwyddiaeth a chynyddu llythrennedd carbon a chamau gweithredu ar draws y Gronfa gyfan.

Byddwn yn canolbwyntio ein gwaith ar ddeall a lleihau maes mwyaf caffael allyriadau.

Rydym yn adolygu ein polisi gwrthbwyso ond rydym yn dal i blannu 800 o goed yng Ngogledd Iwerddon drwy'r Sefydliad Coed Rhyngwladol. Am ail flwyddyn, rydym hefyd wedi prynu Tystysgrifau Priodoledd Ynni i gyfateb i'r ynni anadnewyddadwy a ddefnyddiwyd yn ein swyddfeydd a'n cartrefi yn ystod 2022-23 ac i helpu i gynyddu'r galw am ynni adnewyddadwy.

### Y data

I adlewyrchu'r newidiadau yn ein hadroddiadau ar allyriadau, mae siart allyriadau eleni yn cynnwys yr un categorïau Cwmpas 3 â'r llynedd. Y rhain yw teithio[1], gweithio gartref[2], prynu technoleg[3], prynu offer swyddfa a gwastraff. Fodd bynnag, mae llinell newydd hefyd ar gyfer cyfanswm ein hallyriadau Cwmpas 3 amcangyfrifedig yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gan UP i gysylltu allyriadau i'r holl nwyddau a gwasanaethau a brynwyd gennym yn 2022-23.

Ni allem gynnal yr un dadansoddiad manwl o'r sylfaen gwariant ag a gymhwysodd UP i'n gwaelodlin ar gyfer meysydd eraill o'n hallyriadau Cwmpas 3 a byddwn yn gweithio ar hyn yn y flwyddyn i ddod. Yn y cyfamser, rydym wedi defnyddio'r cyfanswm o 2022-23 (namyn cyfansymiau teithio, gweithio gartref, technoleg, offer swyddfa a gwastraff) fel canllaw.



21 Together, Lloegr

### Tueddiadau data

Cyflawnwyd gostyngiad o 20% yn y defnydd o nwy trwy leihau cyfanswm y gofod swyddfa, symud ein swyddfa yn Llundain i un heb nwy, a monitro rheolyddion gwresogi. Eleni rydym hefyd wedi datgomisiynu ein dau generadur wrth gefn, gan leihau ein hallyriadau Cwmpas 1 a 2.

Rydym yn parhau i drosglwyddo prosesu a storio data i'r cwmwl, gan leihau'r trydan y mae ein gweinyddwyr ar y safle sy'n weddill yn ei dynnu 27% pellach o ddechrau'r flwyddyn. Rydym hefyd wedi lleihau'r ynni sydd ei angen i oeri ein hystafelloedd gweinydd. Mae allyriadau cwmwl yn ein gwaelodlin allyriadau 2022-23 wedi'u cynnwys, ond dim ond data sy'n seiliedig ar wariant sydd gennym, sy'n faes yr ydym am ei wella. Rydym wedi symud i weinyddion allanol mwy soffistigedig ac rydym yn cyflawni prosiectau parhaus i leihau'r data sydd ei angen ar gyfer storio.

Rydym wedi cofnodi un hediad o fewn tir mawr Prydain ac yn parhau i gael teithiau hedfan i ac o'n swyddfa yn Belfast ac Ynysoedd yr Alban. Mae rhai cydweithwyr wedi treialu'r daith fferi. Rydym wedi cofnodi tair hediad rhyngwladol, sef 24% o'n hallyriadau aer.

Rydym wedi cael darlleniadau mesurydd dŵr gan rai o'n landlordiaid eleni ac yn parhau i weithio gyda nhw i gael setiau data mwy cyflawn ar gyfer yr holl gyfleustodau. Nid ydym wedi rhoi cyfrif am unrhyw ddŵr a ddefnyddiwyd neu wastraff a gynhyrchir gan gydweithwyr sy'n gweithio y tu allan i'r swyddfa. Rydym yn parhau i bwyso a mesur y gwastraff sydd gennym yn ein dwy swyddfa fwyaf ac wedi diweddaru sut rydym yn defnyddio'r ffigur hwnnw i amcangyfrif gwastraff ar gyfer ein hystâd swyddfeydd llawn, gan ddefnyddio ffigur gwastraff amcangyfrifedig fesul cyflogai llawn amser. Mae'r dull cyfrifo newydd hwn a'r defnydd cynyddol o'n swyddfeydd eleni wedi darparu cyfanswm gwastraff uwch na'r llynedd, ond mae'r allyriadau cysylltiedig yn ddibwys yn ein hôl troed cyfan. Er hyn, rydym yn dal i annog lleihau gwastraff lle y gallwn gan ei fod yn arwydd allweddol o newid ymddygiad.

## Nodiadau i'r adroddiad cynaliadwyedd

1. Yn seiliedig ar yr holl deithio a gwestai a archebwyd trwy ein system rheoli teithio a chostau teithio a gwestai ar eu cyfer.
2. Yn seiliedig ar gyfrif pennau yn y swyddfa ac ystyried diwrnodau gwaith cyfartalog blynyddol, llai o wyliau blynyddol a neilltuwyd a chyfartaledd absenoldeb salwch.
3. Mae Useful Projects yn cyfrifo pryniannau technoleg fel cyfrifiaduron a nwyddau electronig, yn seiliedig ar wariant. Rydym wedi cynnwys cyfanswm allyriadau yn seiliedig ar ddadansoddiad cynnyrch a ddarparwyd gan ein tîm technoleg, yn seiliedig ar y math o gynnyrch/deunydd a phwysau.

# Nodiadau i'r adroddiad cynaliadwyedd

[4] Yn seiliedig ar wybodaeth sydd ar gael hyd at 16 Ebrill 2024

[5] Fel y nodwyd gan UP, yn seiliedig ar yr holl ddata sydd ar gael ym mis Gorffennaf 2023. Mae oedi rhwng defnyddio cyfleustodau ac anfonebu, felly roedd y set ddata a oedd ar gael yn fwy cyflawn na phan amcangyfrifwyd yr allyriadau ar gyfer ein cyfrifon ar gyfer 2022-23 ac mae UP wedi defnyddio'r canllawiau cyfrifyddu carbon diweddaraf.

[6] Allyriadau Cwmpas 2 wedi'u tynnu o'r cyfanswm net, i gyfrif am dariffau adnewyddadwy a phrynu Tystysgrifau Priodoledd Ynni i gyd-fynd ag unrhyw drydan anadnewyddadwy a ddefnyddiwyd.

[7] Cymerwyd o adroddiad gwaelodlin UP.

[8] Cyfrifiadau allyriadau ar sail cynnyrch, gyda gweddill allyriadau cwmpas 3 yn seiliedig ar wariant.

[9] Mae ychydig bach o ddata sy'n seiliedig ar wariant yn ein cyfansymiau teithio, o'r teithio y gwneir cais amdano drwy ein system dreuliau.

[10] Cyfrifiadau ar sail cynnyrch (yn seiliedig ar y math o gynnyrch a'r pwysau), wedi'u cyfrifo'n fewnol.

[11] Rydym yn parhau i bwyso'r gwastraff yn ein dau safle swyddfa mwyaf, Birmingham a Newcastle. Rydym wedi defnyddio'r ffigurau i greu amcangyfrif o bwysau gwastraff fesul CALl i'w gymhwyso ar draws y mudiad. Nid yw hyn yn cynnwys gwastraff a gynhyrchir wrth weithio gartref a gweithio o bell.

[12] Wedi'i ailddatgan, mae'r pwysau gwastraff yr un fath ag adroddwyd y llynedd, mae'r newid oherwydd newid yn y dull cyfrifo, yn dilyn gwaith UP a newid i amcangyfrif gwastraff fesul CALl yn hytrach na $m^2$.

[13] Yn seiliedig ar ein swyddfeydd yn y Drenewydd, Caerwysg a Chaerdydd dim ond ar dariffau trydan gwyrdd 'o ansawdd da'. Mae swyddfeydd eraill wedi adrodd yn flaenorol eu bod ar dariffau tebyg, ond mae ymchwiliad pellach wedi gwrthbrofi hyn. Mae'r swyddfa newydd yn Llundain, o fis Ionawr, hefyd ar dariff gwyrdd derbyniol.

[14] Wedi'i ailddatgan fel y'i cyfrifwyd gan Useful Projects ac yn seiliedig ar ddarlleniadau mesurydd swyddfa a ddosrannwyd yn Birmingham, Newcastle, Glasgow a Llundain, a gynhyrchodd amcangyfrif defnydd $m^2$ ar gyfer Caerwysg a'r Drenewydd. Tynnwyd yr amcangyfrifon ar gyfer Belfast, Leeds (cadarnhawyd nad oes nwy ar y safle) a Chaerdydd (defnydd nwy cymunedol yn unig).

[15] Mae'r cyfrifiadau ar gyfer y ddwy flynedd yn cynnwys costau ar gyfer nwy a thrydan swyddfa gymunedol (cwmpas 3), fel y talwyd amdano yn ein taliadau gwasanaeth, yn ogystal â nwy (cwmpas 1) a thrydan (cwmpas 2) sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'n gofod a feddiannir.

[16] Nid cynnydd yn y defnydd o ynni sy'n gyfrifol am y cynnydd. Mae ein defnydd o nwy a thrydan wedi lleihau, ond mae costau uned wedi cynyddu a thaliadau gwasanaeth wedi cynyddu'n sylweddol i gyfrif am anweddolrwydd y farchnad.

[17] Wedi'i ailddatgan gan gynnwys anfonebau a thaliadau gwasanaeth nad oeddent ar gael ar adeg y cyfrifiad.

[18] Adroddwyd fel safle tirlenwi y llynedd, ond nid oes tystiolaeth bod ein gwastraff cyffredinol yn cael ei gludo i safleoedd tirlenwi. Lle y gallem ganfod ei gyrchfan, mae wedi'i anfon at adfer ynni.

[19] Nid yw costau rheoli gwastraff adeiladu yn cael eu rhannu fesul ffrwd, felly rydym wedi rhannu cyfanswm y gost yn gyfartal.

David Knott
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

23 Gorffennaf 2024


South Downs National Park Trust, Lloegr

| Enw | Rôl | Presenoldeb 2023-24 | Tâl cyd-nabyddiaeth 2023-24* | Tâl cyd-nabyddiaeth 2022-23* |
|---|---|---|---|---|
| **Elizabeth Passey** | Aelod, Bwrdd Deyrnas Unedig (tan 31 Mai 2022) | - | - | 1,308 |
| **Rachael Robathan** | Aelod, Bwrdd Deyrnas Unedig (tan 31 Mai 2023) | 4/4 | 1,308 | 7,848 |
| | Aelod, Is-bwyllgor Pobl (tan 31 Mai 2023) | - | | |
| | Aelod, Pwyllgor Tâl cydnabyddiaeth a Phenodiadau (tan fis Mai 2023) | 1/1 | | |
| | Aelod, Archwilio a Risg (tan fis Mai 2023) | 0/0 | | |
| **Simone Lowthe-Thomas** | Cadeirydd, Pwyllgor Cymru | 4/4 | 24,000 | 24,000 |
| | Aelod, Pwyllgor Ariannu'r Deyrnas Unedig | 3/5** | | |
| | Aelod, Bwrdd Deyrnas Unedig | 4/4 | | |
| | Aelod, Is-bwyllgor Adnewyddu Strategaeth | 0/1** | | |
| | Aelod, Is-bwyllgor Ymgysylltu â Budd-ddeiliad a Pherthynas â'r Llywodraeth | 0/1** | | |
| | Aelod, Pwyllgor Archwilio a Risg (o 28 Medi 2023) | 2/3** | | |

**cyfarfodydd wedi'u methu oherwydd gwasanaeth rheithgor estynedig

| Enw | Rôl | Presenoldeb 2023-24 | Tâl cyd-nabyddiaeth 2023-24* | Tâl cyd-nabyddiaeth 2022-23* |
|---|---|---|---|---|
| **Paul Sweeney** | Cadeirydd Dros Dro, Bwrdd Deyrnas Unedig (o 1 Awst 2023) Is-gadeirydd (o 1 Ebrill 2023) Aelod (tan 31 Mawrth 2023) | 4/4 | 36,411 | 24,000 |
| | Cadeirydd, Pwyllgor Gogledd Iwerddon | 7/7 | | |
| | Cadeirydd Dros Dro, Pwyllgor Ariannu Deyrnas Unedig (o 1 Awst 2023) Aelod (tan 31 Gorffennaf 2023) | 5/5 | | |
| | Pwyllgor Tâl cydnabyddiaeth a Phenodiadau | 1/1 | | |
| | Aelod, Is-bwyllgor Adnewyddu Strategaeth | 1/1 | | |
| | Aelod, Is-bwyllgor Ymgysylltu â Budd-ddeiliad a Pherthynas â'r Llywodraeth | 3/3 | | |

| Enw | Rôl | Presenoldeb 2023-24 | Tâl cyd-nabyddiaeth 2023-24* | Tâl cyd-nabyddiaeth 2022-23* |
|---|---|---|---|---|
| **Emma Boggis** | Aelod, Bwrdd Deyrnas Unedig Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol (o 16 Tachwedd 2023) | 4/4 | 7,848 | 9,240 |
| | Aelod, Pwyllgor Archwilio a Risg (o 17 Hydref 2022) Cadeirydd, Pwyllgor Archwilio a Risg (tan 16 Hydref 2022) | 5/5 | | |
| | Aelod, Is-bwyllgor Adnewyddu Strategaeth | 1/1 | | |
| **Danielle Walker-Palmour** | Aelod, Bwrdd Deyrnas Unedig | 4/4 | 7,848 | 7,848 |
| | Aelod, Is-bwyllgor Adnewyddu Strategaeth | 1/1 | | |
| | Aelod, Is-bwyllgor Pobl | 6/6 | | |
| | Aelod, Pwyllgor Ariannu DU (o 1 Mawrth 2024) | 1/1 | | |

| Enw | Rôl | Presenoldeb 2023-24 | Tâl cyd-nabyddiaeth 2023-24* | Tâl cyd-nabyddiaeth 2022-23* |
|---|---|---|---|---|
| **John Mothersole** | Is-gadeirydd, Bwrdd DU (o 16 Tachwedd 2023) Aelod (tan 15 Tachwedd 2023) | 4/4 | 24,000 | 24,000 |
| | Aelod, Pwyllgor Ariannu'r Deyrnas Unedig | 5/5 | | |
| | Cadeirydd, Pwyllgor Lloegr | 10/10 | | |
| | Cadeirydd, Is-bwyllgor Ymgysylltu â Budd-ddeiliad a Pherthynasâ'r Llywodraeth | 3/3 | | |
| **Kate Still** | Aelod, Bwrdd Deyrnas Unedig Is-gadeirydd (tan 31 Mawrth 2023) | 4/4 | 24,000 | 24,000 |
| | Aelod, Pwyllgor Ariannu'r Deyrnas Unedig | 5/5 | | |
| | Cadeirydd, Pwyllgor Yr Alban | 7/7 | | |
| | Aelod, Is-bwyllgor Pobl (Cadeirydd tan 31 Rhagfyr 2023) | 6/6 | | |
| | Aelod, Is-bwyllgor Ymgysylltu â Budd-ddeiliad a Pherthynas â'r Llywodraeth | 3/3 | | |
| | Pwyllgor Tâl cydnabyddiaeth a Phenodiadau | 1/1 | | |

| Enw | Rôl | Presenoldeb 2023-24 | Tâl cyd-nabyddiaeth 2023-24* | Tâl cyd-nabyddiaeth 2022-23* |
|---|---|---|---|---|
| **Richard Collier-Keywood** | Aelod, Bwrdd Deyrnas Unedig (o 1 Gorffennaf 2022) | 3/4 | 10,464 | 7,081 |
| | Cadeirydd, Pwyllgor Archwilio a Risg (o 17 Hydref 2022) | 5/5 | | |
| | Aelod, Is-bwyllgor Adnewyddu Strategaeth | 1/1 | | |
| **Stuart Hobley** | Aelod, Bwrdd Deyrnas Unedig (o 1 Gorffennaf 2022) | 3/4 | 7,848 | 5,886 |
| | Aelod, Is-bwyllgor Ymgysylltu â Budd-ddeiliad a Pherthynas â'r Llywodraeth | 2/3 | | |
| **Peter Stewart** | Aelod, Bwrdd Deyrnas Unedig (o 1 Gorffennaf 2022) | 4/4 | 7,848 | 5,886 |
| | Aelod, Is-bwyllgor Adnewyddu Strategaeth | 0/1 | | |
| | Aelod, Pwyllgor Ariannu DU (o 1 Mawrth 2024) | 1/1 | | |
| **Helen Stephenson** | Aelod, Bwrdd Deyrnas Unedig (o 1 Gorffennaf 2022) | 4/4 | - | - |
| | Aelod, Is-bwyllgor Adnewyddu Strategaeth | 1/1 | | |
| | Cadeirydd, Is-bwyllgor Pobl (Aelod tan 31 Rhagfyr 2023) | 6/6 | | |

*Gwybodaeth wedi'i harchwilio

### Aelodau eraill - Lloegr

| Enw | Rôl | Presenoldeb 2023-24 | Tâl cydnabyddiaeth 2023-24* | Tâl cydnabyddiaeth 2022-23* |
|---|---|---|---|---|
| **Margaret Jones** | Aelod, Pwyllgor Lloegr (tan 31 Ionawr 2024) | 10/10 | 6,540 | 7,848 |
| **Tarn Lamb** | Aelod, Pwyllgor Lloegr (tan 28 Chwefror 2023) | - | - | 7,194 |
| **Kevin Bone** | Aelod, Pwyllgor Lloegr | 8/10 | 7,848 | 7,848 |
| **Rosie Ginday** | Aelod, Pwyllgor Lloegr (tan 31 Mawrth 2023) | - | - | 7,848 |
| **Ray Coyle** | Aelod, Pwyllgor Lloegr | 7/10 | 7,848 | 7,848 |
| **Halima Khan** | Aelod, Pwyllgor Lloegr (o 1 Ebrill 2023) | 10/10 | 7,848 | - |
| **Kamran Rashid** | Aelod, Pwyllgor Lloegr (o 1 Ebrill 2023) | 10/10 | 7,848 | - |
| **Karin Woodley** | Aelod, Pwyllgor Lloegr (o 1 Ebrill 2023) | 9/10 | 7,848 | - |

## Aelodau eraill - Yr Alban

| Enw | Rôl | Presenoldeb 2023-24 | Tâl cydnabyddiaeth 2023-24* | Tâl cydnabyddiaeth 2022-23* |
|---|---|---|---|---|
| **Jackie Brock** | Aelod, Pwyllgor Yr Alban | 6/7 | 5,232 | 5,232 |
| **Lindsay Graham** | Aelod, Pwyllgor Yr Alban | 6/7 | 5,232 | 5,232 |
| **Aaliya Seyal** | Aelod, Pwyllgor Yr Alban | 6/7 | 5,232 | 5,232 |
| **Martin Johnstone** | Aelod, Pwyllgor Yr Alban | 6/7 | 5,232 | 5,232 |
| **Janet Miles** | Aelod, Pwyllgor Yr Alban | 6/7 | 5,232 | 6,040 |
| **Naila Wood** | Aelod, Pwyllgor Yr Alban (o 1 Mehefin 2022) | 5/7 | 5,232 | 4,683 |

## Aelodau eraill - Cymru

| Enw | Rôl | Presenoldeb 2023-24 | Tâl cydnabyddiaeth 2023-24* | Tâl cydnabyddiaeth 2022-23* |
|---|---|---|---|---|
| **Trystan Pritchard** | Aelod, Pwyllgor Cymru | 4/4 | 5,232 | 5,232 |
| **Kate Young** | Aelod, Pwyllgor Cymru | 4/4 | 5,232 | 5,232 |
| **Gwenllian Lansdown Davies** | Aelod, Pwyllgor Cymru | 3/4 | 5,232 | 5,232 |
| **Nicola Russell-Brooks** | Aelod, Pwyllgor Cymru | 4/4 | 5,232 | 5,232 |
| **Fadhili Maghiya** | Aelod, Pwyllgor Cymru | 4/4 | 5,232 | 5,232 |

## Aelodau eraill - Gogledd Iwerddon

| Enw | Rôl | Presenoldeb 2023-24 | Tâl cydnabyddiaeth 2023-24* | Tâl cydnabyddiaeth 2022-23* |
|---|---|---|---|---|
| **Charles Mack** | Aelod, Pwyllgor Gogledd Iwerddon (tan 31 Hydref 2022) | - | - | 3,052 |
| **Sandra McNamee** | Aelod, Pwyllgor Gogledd Iwerddon (tan 31 Hydref 2022) | - | - | 3,052 |
| **Nick Garbutt** | Aelod, Pwyllgor Gogledd Iwerddon | 7/7 | 5,232 | 5,232 |
| **Cara Cash-Marley** | Aelod, Pwyllgor Gogledd Iwerddon | 4/7 | 5,232 | 5,232 |
| **Kate Clifford** | Aelod, Pwyllgor Gogledd Iwerddon | 7/7 | 5,232 | 5,232 |
| **Anne-Marie McClure** | Aelod, Pwyllgor Gogledd Iwerddon (o 1 Tachwedd 2022) | 7/7 | 5,232 | 2,180 |
| **Norman McKinley** | Aelod, Pwyllgor Gogledd Iwerddon (o 1 Tachwedd 2022) | 5/7 | 5,232 | 2,180 |

## Aelodau eraill - Pwyllgor Archwilio a Risg

| Enw | Rôl | Presenoldeb 2023-24 | Tâl cydnabyddiaeth 2023-24* | Tâl cydnabyddiaeth 2022-23* |
|---|---|---|---|---|
| **Ruth Marchington** | Aelod, Pwyllgor Archwilio a Risg (tan 29 Chwefror 2024) | 4/5 | 1,599 | 1,744 |
| **Charlotte Moar** | Aelod, Pwyllgor Archwilio a Risg | 5/5 | 1,744 | 1,744 |

## Datganiad sefyllfa ariannol

| | Nodyn | Ar 31 Mawrth 2024 £000 | Ar 31 Mawrth 2023 £000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Eiddo, peiriannau a chyfarpar | 10 | 283 | 367 |
| Asedau anniriaethol | 11 | - | 19 |
| Asedau hawl i ddefnyddio | 20 | 4,037 | 1,968 |
| | | **4,320** | **2,354** |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Masnach ac arian arall a dderbynnir | 12 | 4,712 | 45,417 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | | 231,961 | 237,626 |
| Balans buddsoddi yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol | 13 | 530,214 | 489,080 |
| | | **766,887** | **772,123** |
| **Cyfanswm asedau** | | **771,207** | **774,477** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Masnach ac arian arall a delir | 14 | (587,454) | (560,207) |
| Rhwymedigaethau prydles | 20 | (586) | (949) |
| **Cyfanswm asedau llai ymrwymiadau net cyfredol** | | **183,167** | **213,321** |
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Masnach ac arian arall a delir | 14 | (473,129) | (457,599) |
| Rhwymedigaethau prydles | 20 | (3,561) | (757) |
| **Darpariaethau** | 15 | (1,389) | (1,048) |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | | **(294,912)** | **(246,083)** |
| **Cynrychiolir gan:** | | | |
| Arian wrth gefn y Loteri | | (366,755) | (355,458) |
| Arian wrth gefn asedau segur | | 76,886 | 108,584 |
| Arian wrth gefn Cronfa Community Organisations Cost of Living Fund | | 500 | - |
| Arian wrth gefn Cronfa Million Hours | | (6,307) | - |
| Arian wrth gefn Cronfa Gymorth Cymunedol y Coronafeirws | | 764 | 752 |
| Arian wrth gefn Cronfa Local Connections | | - | 3 |
| Arian wrth gefn Cronfa Living Places and Spaces | | - | 31 |
| Arian wrth gefn Cronfa Caru'n Cynefin | | - | 5 |
| | | **(294,912)** | **(246,083)** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 220 i 326 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

Llofnodwyd ar ran Bwrdd y Gronfa Loteri Fawr ar 23 Gorffennaf 2024.

David Knott
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

Paul Sweeney
Cadeirydd

## 5. Costau Gweithredu

| | Costau gweithredu ar gyfer dosbarthu incwm y Loteri £000 | Costau gweithredu a ail-godir £000 | Costau gweithredu ar gyfer dosbarthu arian asedau segur £000 | Costau gweithredu ar gyfer dosbarthu arian Cronfa Community Organisations Cost of Living Fund £000 | Costau gweithredu ar gyfer dosbarthu arian Cronfa Million Hours £000 | Costau gweithredu ar gyfer dosbarthu arian CCSF £000 | Cyfanswm costau gweithredu Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 £000 | Cyfanswm costau gweithredu Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tâl cydnabyddiaeth cyflogeion | 37,148 | 1,472 | 740 | 2,786 | 165 | (213) | 42,098 | 37,956 |
| Teithio a Threuliau | | | | | | | | |
| - Staff | 1,162 | 27 | 3 | 6 | - | - | 1,198 | 1,033 |
| - Bwrdd a Phwyllgor | 25 | - | - | - | - | - | 25 | 18 |
| Taliadau o dan lesi gweithredol tymor byr/gwerth isel: | | | | - | - | - | | |
| - Eiddo | 341 | - | - | - | - | - | 341 | 91 |
| - Arall | 69 | - | - | - | - | - | 69 | 58 |
| Costau llety eraill | 1,378 | - | - | - | - | - | 1,378 | 1,231 |
| Costau cyfathrebu | 969 | 27 | 5 | 1 | - | - | 1,002 | 955 |
| Cefnogaeth allanol ar gyfer rhaglenni grant | 1,185 | 61 | 16 | 8 | - | - | 1,270 | 1,126 |
| Gwerthuso rhaglenni | 152 | 6 | 50 | - | - | - | 208 | 168 |
| Recriwtio a hyfforddi staff | 1,234 | 10 | - | 1 | - | - | 1,245 | 1,599 |
| Ffioedd proffesiynol | 349 | 6 | - | - | - | - | 355 | 402 |
| Tâl archwilwyr ar gyfer gwaith archwilio | 160 | - | - | - | - | - | 160 | 157 |
| Costau isadeiledd TG | 3,420 | - | - | 338 | - | - | 3,758 | 2,938 |
| Costau eraill | 688 | (68) | - | 6 | - | - | 626 | 913 |
| Dibrisio eiddo, peiriannau a chyfarpar | 45 | - | - | - | - | - | 45 | 37 |
| TAW | 1,744 | 16 | 16 | 170 | 12 | - | 1,958 | 1,541 |
| Eitemau anariannol | | | | | | | | |
| - Dibrisio (ac eithrio asedau hawl i ddefnyddio) | 245 | - | - | - | - | - | 245 | 760 |
| - Amorteiddio asedau hawl i ddefnyddio | 1,456 | - | - | - | - | - | 1,456 | 1,600 |
| - Costau llog ar rwymedigaethau prydlesi | 174 | - | - | - | - | - | 174 | (32) |
| | **51,944** | **1,557** | **830** | **3,316** | **177** | **(213)** | **57,611** | **52,551** |

Nid oedd unrhyw ffioedd ar gyfer gwasanaethau nad oeddent yn ymwneud ag archwilio gan archwilwyr allanol.

| | | |
|---|---|---|
| **Arian wrth gefn** | | |
| Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2023 | - | - |
| Cyfanswm incwm net cynhwysfawr | 500 | - |
| **Dygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2024** | **500** | **-** |

### Datganiad sefyllfa ariannol

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Asedau cyfredol** | | |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 520 | - |
| **Cyfanswm asedau** | **520** | **-** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | |
| Rhwymedigaethau grant | (20) | - |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau** | (20) | - |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | **500** | **-** |

### Colledion a thaliadau arbennig

Ceir colledion pan nad oes unrhyw dystiolaeth bod amcanion prosiect a ariannwyd wedi'u cyflawni. Yn y flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2024 rydym wedi dileu colledion o £0, gan gynrychioli dim dyfarniadau. Nid oedd unrhyw ddileadau uwchben £100,000.



## 29. Cronfa Million Hours

Yn ystod 2023-24, cytunodd y Gronfa ar y rhaglen hon, a fydd yn para hyd at 30 Medi 2026. Cyfanswm cost y rhaglen yw £22 miliwn, a bydd DCMS yn cyfrannu £11 miliwn ohono trwy gytundeb grant gyda'r Gronfa. Bydd yr £11 miliwn sy'n weddill yn cael ei gyfrannu gan y Gronfa. Yn y cytundeb grant, penderfynwyd y bydd y Gronfa yn gweithredu fel Penadur yn hytrach nag Asiant.

### Datganiad incwm net cynhwysfawr

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Incwm** | | |
| Derbyniwyd/Derbyniadwy gan DCMS | 3,938 | - |
| Llog | 23 | - |
| **Cyfanswm incwm** | **3,961** | **-** |
| **Gwariant** | | |
| Gwariant ar grantiau | 10,091 | - |
| | **10,091** | **-** |
| Costau gweithredu | 177 | - |
| **Cyfanswm gwariant** | **10,268** | **-** |
| **Cyfanswm (gwariant)/incwm net cynhwysfawr** | **(6,307)** | **-** |
| **Arian wrth gefn** | | |
| Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2023 | - | - |
| Cyfanswm (gwariant)/ incwm net cynhwysfawr | (6,307) | - |
| **Dygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2024** | **(6,307)** | **-** |

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 £000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 £000 |
|---|---|---|
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | **764** | **752** |

### Colledion a thaliadau arbennig

Ceir colledion pan nad oes unrhyw dystiolaeth bod amcanion prosiect a ariannwyd wedi'u cyflawni. Yn y flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2024 rydym wedi dileu colledion o £321,410, gan gynrychioli 35 o ddyfarniadau (2022-23: £91,921 gan gynrychioli 14 o ddyfarniadau). Nid oedd unrhyw ddileadau uwchben £100,000 (2022-23: dim).

## 31. Cronfa Local Connections

Yn ystod 2020-21, cytunodd y Gronfa ar y rhaglen hon am gyfnod rhwng 1 Hydref 2020 a 31 Mawrth 2022. Cyfanswm cost y rhaglen oedd £4.0 miliwn, a chyfrannodd DCMS £2.0 miliwn ohono drwy gytundeb grant. Cyfrannwyd y £2.0 miliwn a oedd yn weddill gan y Gronfa. Yn y cytundeb grant, penderfynwyd y bydd y Gronfa yn gweithredu fel Penadur yn hytrach nag Asiant. Ad-dalwyd y balans i DCMS.

### Datganiad incwm net cynhwysfawr

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 £000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 £000 |
|---|---|---|
| **Incwm** | | |
| Ad-daliadau | 2 | - |
| **Cyfanswm incwm** | **2** | **-** |
| **Gwariant** | | |
| Ad-dalwyd i DCMS | 5 | - |
| | **5** | **-** |
| Costau gweithredu | - | - |
| **Cyfanswm gwariant** | **5** | **-** |
| **Cyfanswm (gwariant)/incwm net cynhwysfawr** | **(3)** | **-** |

| | | |
|---|---|---|
| **Arian wrth gefn** | | |
| Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2023 | 3 | 3 |
| Cyfanswm (gwariant)/ incwm net cynhwysfawr | (3) | - |
| **Dygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2024** | **-** | **3** |

### Datganiad sefyllfa ariannol

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 £000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 £000 |
|---|---|---|
| **Asedau cyfredol** | | |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | - | 3 |
| | - | - |
| **Cyfanswm asedau** | **-** | **3** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | |
| Masnach ac arian arall a delir | - | - |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau** | **-** | **-** |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | **-** | **3** |

### Colledion a thaliadau arbennig

Ceir colledion pan nad oes unrhyw dystiolaeth bod amcanion prosiect a ariannwyd wedi'u cyflawni. Yn y flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2024 rydym wedi dileu colledion o £0, gan gynrychioli dim dyfarniadau (2022-23: dim). Nid oedd unrhyw ddileadau uwchben £100,000 (2022-23: dim).

## 32. Cronfa Living Places and Spaces

Yn ystod 2021-22, cytunodd y Gronfa ar y rhaglen hon, a fydd yn para hyd at 31 Mawrth 2022. Cyfanswm cost y rhaglen yw £0.8m y bydd yr Adran Isadeiledd, Gogledd Iwerddon, yn ei darparu drwy gytundeb grant. Roedd y cytundeb grant yn pennu y byddai'r Gronfa'n gweithredu fel Penadur yn hytrach nag Asiant.

Cytunwyd ar ariannu ychwanegol o £0.8 miliwn ar gyfer y rhaglen hon yn 2022-23, hyd at 31 Mawrth 2023. Ad-dalwyd y balans i'r Adran Isadeiledd.

### Datganiad incwm net cynhwysfawr

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 £000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 £000 |
|---|---|---|
| **Incwm** | | |
| Derbyniwyd/Derbyniadwy gan DfI | - | 791 |
| Ad-daliadau | 3 | 9 |
| **Cyfanswm incwm** | **3** | **800** |
| **Gwariant** | | |
| Gwariant ar grantiau | 21 | 741 |
| | **21** | **741** |
| Ad-dalwyd i DfI | 13 | - |
| Costau gweithredu | - | 41 |
| **Cyfanswm gwariant** | **34** | **782** |
| **Cyfanswm (gwariant)/incwm net cynhwysfawr** | **(31)** | **18** |
| **Arian wrth gefn** | | |
| Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2023 | 31 | 13 |
| Cyfanswm (gwariant)/ incwm net cynhwysfawr | (31) | 18 |
| **Dygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2024** | **-** | **31** |

### Datganiad sefyllfa ariannol

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 £000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 £000 |
|---|---|---|
| **Asedau cyfedol** | | |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | - | 31 |
| **Cyfanswm asedau** | **-** | **31** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | |
| Masnach ac arian arall a delir | - | - |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau** | **-** | **-** |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | **-** | **31** |

### Colledion a thaliadau arbennig

Ceir colledion pan nad oes unrhyw dystiolaeth bod amcanion prosiect a ariannwyd wedi'u cyflawni. Yn y flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2024 rydym wedi dileu colledion o £10,000, gan gynrychioli un dyfarniad (2022-23: dim). Nid oedd unrhyw ddileadau uwchben £100,000 (2022-23: dim).

## 33. Cronfa Caru'n Cynefin

Yn ystod 2021-22, cytunodd y Gronfa ar y rhaglen hon, a fyddai'n para hyd at 31 Rhagfyr 2021 neu'r dyddiad y mae'r ddau barti wedi cyflawni eu hymrwymiadau o dan y cytundeb. Cyfanswm cost y rhaglen oedd £0.7m a ddarparwyd gan IKEA drwy gytundeb grant. Pennwyd yn y cytundeb grant y byddai'r Gronfa'r gweithredu fel Penadur yn hytrach nag Asiant. Trosglwyddwyd y balans i'r Gronfa.

### Datganiad incwm net cynhwysfawr

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 £000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 £000 |
|---|---|---|
| **Incwm** | | |
| Tynnu'r grant | - | 5 |
| **Cyfanswm incwm** | **-** | **5** |
| **Gwariant** | | |

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Gwariant ar grantiau wedi darfod neu eu diddymu | (58) | (34) |
| | **127,012** | **86,405** |
| Costau gweithredu | 830 | 615 |
| **Cyfanswm gwariant** | **127,842** | **87,020** |
| **Gwarged cyn treth** | **(29,950)** | **6,496** |
| Treth | (1,748) | - |
| **Cyfanswm (gwariant)/incwm net cynhwysfawr** | **(31,698)** | **6,496** |
| **Arian wrth gefn** | | |
| Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2023 | 108,584 | 102,088 |
| Cyfanswm (gwariant)/ incwm net cynhwysfawr | (31,698) | 6,496 |
| **Dygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2024** | **76,886** | **108,584** |

## 34b. Datganiad sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2024

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Asedau cyfredol** | | |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 181,125 | 222,725 |
| **Cyfanswm asedau** | **181,125** | **222,725** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | |
| Masnach ac arian arall a delir | (1,682) | (125) |
| Ymrwymiadau grant i ddosbarthwyr penodol | (79,477) | (90,499) |
| Rhwymedigaethau grant | (23,080) | (23,517) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau** | **(104,239)** | **(114,141)** |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | **76,886** | **108,854** |

## 34c. Cyfrif Incwm a Gwariant Manwl gyda Dyraniad fesul Gwlad

| | Lloegr | Yr Alban | Cymru | Gogledd Iwerddon | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 Cyfan-swm | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 Cyfan-swm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Dadansoddiad yn ôl Segment** | | | | | | |
| Incwm | - | - | - | - | 97,824 | 93,509 |
| Namyn costau gweithredu | **-** | **-** | **-** | **-** | **(2,578)** | **(615)** |
| **Incwm net ar gael i'w dosbarthu** | | | | | **95,244** | **92,894** |
| **Ar gael i bob gwlad** | 79,910 | 8,001 | 4,667 | 2,667 | | |
| Adennill grantiau | - | 68 | - | - | 68 | 7 |
| Ymrwymiadau grant i ddosbarthwyr penodol | (111,780) | - | - | - | (111,780) | (65,847) |
| Ymrwymiadau grant a wnaed | - | (8,517) | (107) | (6,606) | (15,230) | (20,558) |
| **Gwarged/(Diffyg) ar gyfer y flwyddyn** | **(31,870)** | **(449)** | **4,560** | **(3,939)** | **(31,698)** | **6,496** |
| Balans arian a ddygwyd ymlaen | **65,597** | **17,208** | **15,390** | **10,389** | **108,584** | **102,088** |
| **Balans yr arian a ddygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2024** | **33,727** | **16,759** | **19,950** | **6,450** | **76,886** | **108,584** |
| **Symud croniadau grant** | | | | | | |
| Rhwymedigaethau grant a ddygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2023 | 90,499 | 8,184 | 7,050 | 8,283 | 114,016 | 48,743 |

| | Lloegr | Yr Alban | Cymru | Gogledd Iwerddon | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 Cyfan-swm | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 Cyfan-swm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Ymrwymiadau grant a wnaed | 111,779 | 8,566 | 116 | 6,608 | 127,069 | 86,439 |
| Rhwymedigaethau wedi darfod a'u diddymu | - | (49) | (9) | - | (58) | (34) |
| Rhwymedigaethau grant a fodlonwyd | (122,801) | (7,206) | (1,797) | (6,666) | (138,470) | (21,132) |
| **Croniad a ddygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2024** | **79,477** | **9,495** | **5,360** | **8,225** | **102,557** | **114,016** |
| **Croniadau grant sy'n heneiddio** | | | | | | |
| Yn ddyledus o fewn blwyddyn | 79,477 | 5,942 | 2,138 | 5,615 | 93,173 | 101,487 |
| Yn ddyledus o fewn mwy na blwyddyn ond llai na dwy flynedd | - | 2,832 | 1,402 | 2,038 | 6,272 | 7,431 |
| Yn ddyledus o fewn mwy na dwy flynedd ond llai na thair blynedd | - | 721 | 851 | 572 | 2,144 | 3,659 |
| Yn ddyledus o fewn mwy na thair blynedd ond llai na phedair blynedd | - | - | 529 | - | 529 | 601 |
| Yn ddyledus o fewn mwy na phedair blynedd ond llai na phum mlynedd | - | - | 354 | - | 354 | 410 |
| Yn ddyledus ar ôl mwy na phum mlynedd | - | - | 86 | - | 86 | 428 |
| | **79,477** | **9,495** | **5,360** | **8,225** | **102,557** | **114,016** |

